

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed  
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 24ain Ionawr 2021

Presennol– Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Janet Charlton, Neil Pringle, Dyfed Jones, Cyng Elisabeth Roberts Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.  
Datgan diddordeb –Dim datganiad

Ymddiswyddiad. Cyfeiriodd y clerc at ymddiswyddiad Barbara Drake a Siân Godbert ac yn unol â chanllawiau Cyngor BS Conwy ei fod wedi arddangos y wybodaeth ar fwrdd hysbyseb y Cyngor

Cofnodion – Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 24ain Dachwedd 2020

Materion yn codi

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol , ag eglurodd y clerc er nad oedd diweddariad wedi ei dderbyn gan PCSO Gareth Roberts fod yr heddwes eisoes wedi datgan mae achlysuron yn ymwneud a chofid oedd bennaf.

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair

Eglurodd y clerc mae dim ond CNC oedd wedi ateb llythyr y Cyngor hyd hyn a nad oedd ateb wedi ei dderbyn gan CADW ar Parc Cenedlaethol. Y clerc i anfon gair i atgoffa CADW a APCE gyda chopi hefyd i Gadeirydd APCE y Cyng Wyn Ellis Jones.

[1.2] Rheolaeth Cae Llan/ Darparu Gwasanaethau

Cyfeiriodd y clerc at amcan bris gan Dwr Cymru ar gyfer gosod cyflenwad dwr i'r cae fel a ganlyn. Anfon cais £70.00, cyswllt ar gyfer y dŵr £700- £2,000.00. Nid oedd ateb wedi ei dderbyn gan Scottish Power. Y clerc i anfon gair i atgoffa Scottish Power a hefyd cysylltu gydag Ystâd Gwydyr I esio cyfraniad tuag at y costau.

[1.3] Cyngor BS Conwy Gwasanaethau Cynaliadwy

Nodwyd bod y mater yn parhau

[1.4] Pont y Mwynwyr

Y clerc i geisio diweddariad gan Gyngor BS Conwy

[1.5] Camerâu Cylch Agos Pentre' Du

Nodwyd nad oedd yn bosib i wneud trefniadau ar hyn o bryd o ganlyniad coronafirus.

[1.6] Llosgi Ysbwriel tu cefn i'r Hen Lys

Adroddodd y Cyng E Roberts bod Adran yr Amgylchedd y Cyngor Sir yn monitro'r sefyllfa, cytunodd yr aelodau hefyd i gadw llygad.

[1.7] Dosbarthu Gwybodaeth yn Lleol

Y clerc i gysylltu'n mhellach gyda rheolwr gwefan y Cyngor i geisio arweiniad ynglŷn â thudalen facebook.

[1.8] Siop Climber a Rambler

Eglurodd y Cadeirydd iddo anfon llythyr o gefnogaeth i Asiant Ystadau Wild Commercial Ltd ynglyn a threfniadau gwerthiant siop Climber a Rambler.

[1.9] Ymylon, Ffordd y Rheithordy

Nodwyd bod y cerrig ar ymylon y ffordd wedi ei symud ond bod yr arwyddion "no parking" yn parhau. Dywedodd y Cyng E Roberts y byddai'n trefnu i gwrdd swyddogion yn y safle.

[2] Gwasanaeth Sgip

Dywedodd y clerc bod y Cyngor Sir wedi canslo trefniadau ar gyfer gwasanaeth sgip ym Mhentre' Du o ganlyniad coronafirus. Dywedodd y Cyng E Roberts ei bod yn bwriadu trafod y mater o gael gwasanaeth sgip di dal yng nghefn gwlad, yn y Forum Ardaloedd Cefn Gwlad.

[2.1] Safle Picnic Cae Llan

Eglurodd y clerc bod y gwaith wedi ei ohirio o ganlyniad y tywydd gwlyb ond bod bwriad i ddechrau'r gwaith yn y dyfodol agos

Y brif Agenda

[2.2] Materion Cynllunio

[a] Estyniad deulawr, Oakdale, Betws-y-Coed.

[b] Diwygiad ansylweddol i ganiatâd cynllunio i ychwanegu cegin fach. Glenwood, Betws-y-Coed.

[c] Codi canopy gwydyr a lle eistedd allanol ayb, Gwesty'r Royal Oak, Betws-y-Coed  
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r tri cais uchod.

[2.3] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc ar gyfer misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2020.

[b] Nodwyd fod incwm y Rhoadr Ewynnol yn is na'r arferol ar gyfer y cyfnod Tach/Rhagfyr 2020

[c] Presept –Gan nodi'r arian wrth gefn penderfynwyd gosod presept o £3,000.00 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22

[2.4] Goleuadau Stryd

Adroddodd y Cadeirydd ar fater a godwyd yng nghyfarfod grŵp ymateb cofid 19, bod pryder fod rhan o ffordd B5106 ar fin y pentref yn ddi olau. Deallwyd nad oedd modd gan y Cyngor Sir y modd i ymgymryd a'r gwaith. Penderfynwyd yn yr amgylchiadau i gymeradwyo'r gost o £2,000.00 y golofn ar gyfer 5 colofn ychwanegol.

[2.5] Gwaith Atgyweirio'r Neuadd Goffa

Cyfeiriodd y clerc at adroddiad gan Gyngor BS Conwy yn amlinellu gwaith sydd ei angen yn y Neuadd Goffa, eglurodd hefyd bod y Cyngor Sir o'r farn mae cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned ydi'r gwaith, sydd yn groes i'r cytundeb. Deallwyd bod y mater o dan sylw'r adran gyfreithiol er mwyn ceisio eglurhad. Y clerc i anfon copi o'r cytundeb i'r aelodau

[2.6] Draeniau wedi Tagu

Cytunodd y Cyng Janet Charlton i anfon manylion ymlaen i'r clercc

[2.7] Erydiad ar Fin yr Afon Llugwy

Deallwyd bod erydiad ar fin yr afon Llugwy sydd yn dilyn y llwybr cyhoeddus o gyfeiriad y Ganolfan Groeso. Y clercc i wneud ymholiad gyda'r Parc Cenedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn a perchnogaeth.

[2.8] Tai Fforddiadwy

Dywedodd y Cyng Elisabeth Roberts bod y mater wedi symud ymlaen a bod Grŵp Cynefin yn trafod gyda'r Ystâd Gwydyr ynglun pryniant y tir. Deallwyd bod cyllideb hefyd wedi ei drefnu.

[2.9] Clwb Rygbi Nant Conwy / Cofid 19

Nodwyd gyda balchder bod Rhwydwaith y Clwb Rygbi yn darparu cymorth gyda siopa, casglu presgripsiynau, darparu prydau bwyd ar ran busnesau lleol ayb.

[3] Cyfraniad

Penderfynwyd cyfrannu £400.00 tuag at Ambiwlans Awyr Cymru

Cadeirydd\_\_\_\_\_

